

CABINET - DYDD MAWRTH, 10 MAWRTH 2026

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CABINET A GYNHALIWDYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB / O BELL DRWY TIMAU MICROSOFT. AR DYDD MAWRTH, 10 MAWRTH 2026
14:30

Presennol

Y Cyngorydd JC Spanswick – Cadeirydd

GC Haines
M J Evans

N Farr
M Jones

J Gebbie

E L P Caparros

Presennol – O Bell

HM Williams

Swyddogion:

Jake Morgan
Stephen Griffiths
Claire Marchant
Janine Nightingale
Kelly Watson
Mark Galvin
Lindsay Harvey

Prif Weithredwr
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio
Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd

608. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y penderfyniad a wnaed	Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid a Thrawsnewid.
------------------------	---

CABINET - DYDD MAWRTH, 10 MAWRTH 2026

Dyddiad gwneud y penderfyniad	10 Mawrth 2026
-------------------------------	----------------

609. Datganiadau o fuddiant

Y penderfyniad a wnaed	Datganwyd y buddiannau canlynol:- Y Cynghorydd G Haines - buddiant personol yn eitem 5 ar yr Agenda Y Cynghorydd E Caparros - buddiant rhagfarnus yn eitem 17 ar yr Agenda.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	10 Mawrth 2026

610. Cymeradwyaeth Cofnodion

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cofnodion cyfarfod y Cabinet dyddiedig 03/03/2026 a 17/02/2026 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	10 Mawrth 2026

611. Cysylltu â'r Gwaith

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn: <ol style="list-style-type: none">1. Cytuno bod Cyngor Caerdydd yn gweithredu fel y Corff Derbyn Grant Rhanbarthol.2. Cytuno bod Rheolwr y Rhaglen Menter a Chyflogadwyedd yn cynrychioli CBSP ar Grŵp Strategol CG (Cysylltu â Gwaith) dan arweiniad Cyngor Caerdydd ac Arweinydd y Tîm Cyflogadwyedd yn cynrychioli CBSP ar Grŵp Gweithredol CG.3. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Cyfreithiol a Gwasanaethau Rheoleiddio, Adnoddau Dynol ac Etholiadol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid i drafod ac ymrwymo i gytundeb cyllido CG rhanbarthol ac unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n ategol i'r cytundeb neu sy'n angenrheidiol i gyflawni CG.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	10 Mawrth 2026

612. Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft (CCA): Cyfleusterau Addysgol a Datblygiad Preswyl

Y penderfyniad a wnaed	<p>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn:</p> <ol style="list-style-type: none">1. cymeradwyo'r CCA drafft ar gyfer Cyfleusterau Addysgol a Datblygiad Preswyl (Atodiad 1 i'r adroddiad y cyfeirir ato) fel sail ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus am isafswm cyfnod o 6 wythnos.2. awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau a'r Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i wneud mân newidiadau cyflwyniadol, a chywiriadau teipograffig neu ffeithiol yn ôl yr angen cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.3. awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau a'r Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i gynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus ac i adrodd canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus yn ôl i'r Cabinet i'w cymeradwyo er mwyn anfon yr adroddiad i'r Cyngor a cheisio cymeradwyaeth i fabwysiadu'r CCA drafft terfynol.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	10 Mawrth 2026

613. Trefniant Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar gyfer Hyfforddiant Dementia

Y penderfyniad a wnaed	<p>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:</p> <ol style="list-style-type: none">1. Wedi nodi'r trefniant anffurfiol ac yn cymeradwyo ymrwymo i'r cytundeb partneriaeth gyda CTMUHB ac yn atal y rhannau perthnasol o Reoliadau Diogelu Plant y Cyngor mewn perthynas â'r gofynion sy'n ymwneud â chaffael y ddarpariaeth hyfforddi a datblygu dementia y bydd CTMUHB yn ei chyflawni;2. Wedi dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, i gymeradwyo telerau terfynol y cytundeb cydweithredu gyda CTMUHB ar ran y Cyngor ac i drefnu gweithredu'r cytundeb cydweithredu ar ran y Cyngor, yn amodol ar arfer yr awdurdod dirprwyedig hwnnw mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol ac AD ac Etholiadau.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	10 Mawrth 2026

614. Adroddiad Rheoli'r Trysorlys Chwarter 3 2025-26

CABINET - DYDD MAWRTH, 10 MAWRTH 2026

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD : Bod y Cabinet yn: 1. nodi gweithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Rhagfyr 2025. 2. nodi Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys am y cyfnod o 1 Ebrill 2025 i 31 Rhagfyr 2025 yn erbyn y rhai a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025-26.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	10 Mawrth 2026

615. Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn: 1. cymeradwyo Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad. 2. dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid i wneud mân amrywiadau i'r Polisi er mwyn caniatáu ar gyfer unrhyw gynnydd yng nghanran eiddo Cymoedd i'r Arfordir gael eu dyrannu drwy'r Gofrestr Tai Gyffredin.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	10 Mawrth 2026

616. Llety Dros Dro i Ddigartrefedd

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn: 1. nodi cynnwys yr adroddiad. 2. cytuno i atal rhannau perthnasol o Reolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor (RhGGau) o ran y gofyniad i dendro am gontract a dirprwyo awdurdod i'r Rheolwr Grŵp Tai ac Adfywio'r Gymuned ymrwymo i Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda darparwyr llety presennol am gyfnod o 'hyd at' 12 mis neu 'hyd at' 3 blynedd pan fo budd masnachol i wneud hynny er mwyn parhau i ddarparu llety dros dro ychwanegol yn ôl yr angen i fodloni dyletswyddau statudol y Cyngor. 3. dirprwyo awdurdod i'r Rheolwr Grŵp Tai ac Adfywio'r Gymuned gymeradwyo telerau terfynol y Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar ran y Cyngor a threfnu gweithredu'r cytundebau ar ran y Cyngor mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, Adnoddau Dynol ac Etholiadol.
------------------------	--

CABINET - DYDD MAWRTH, 10 MAWRTH 2026

	4. nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ynghylch llety dros dro.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	10 Mawrth 2026

617. Trethi Annomestig: Rhyddhad Dewisol: Cynllun Rhyddhad Trethi Lletygarwch Bwyd a Diod 2026-27

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: Mabwysiadodd y Cabinet y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig Lletygarwch Bwyd a Diod ar gyfer 2026-27 fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	10 Mawrth 2026

618. Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cyhoeddi'r adroddiad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 3.1 yr adroddiad.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	10 Mawrth 2026

619. Materion Brys

Y penderfyniad a wnaed	Nid oedd unrhyw eitemau brys.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	10 Mawrth 2026

620. Gwahardd y Cyhoedd

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD:: Nid yw'r eitemau canlynol i'w cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio fel y diffinnir ym Mharagraffau 14 a/neu 16 Rhan 4 a Pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.
------------------------	---

CABINET - DYDD MAWRTH, 10 MAWRTH 2026

	Yn dilyn cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynodd y Cabinet yn unol â'r Ddeddf ystyried yr eitemau hyn yn breifat, gyda'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	10 Mawrth 2026

621. Cymeradwyaeth Cofnodion wedi'u Eithrio

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: Bod cofnodion wedi'u heithrio o gyfarfod y Cabinet dyddiedig 3/02/2026, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	10 Mawrth 2026

622. Ailgomisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Gwasanaethau Gofal yn y Cartref

Y penderfyniad a wnaed	Mae'r eitem hon wedi'i heithrio ac felly nid yw'r penderfyniad yn agored i'r cyhoedd
Dyddiad gwneud y penderfyniad	10 Mawrth 2026

623. Strategaeth Comisiynu Lleoliadau 2025-2030 (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd)

Y penderfyniad a wnaed	Mae'r eitem hon wedi'i heithrio ac felly nid yw'r penderfyniad yn agored i'r cyhoedd
Dyddiad gwneud y penderfyniad	10 Mawrth 2026

624. Adroddiad Ar y Cyd Esempt - Rhaglen Moderneiddio Ysgolion - Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr

Y penderfyniad a wnaed	Mae'r eitem hon wedi'i heithrio ac felly nid yw'r penderfyniad yn agored i'r cyhoedd
Dyddiad gwneud y penderfyniad	10 Mawrth 2026

CABINET - DYDD MAWRTH, 10 MAWRTH 2026

--	--